



YN Y BWLETIN TYMOR YMA

✓ **DYDDIADAU PWYSIG**

✓ **PRESENOLDEB**

✓ **ARHOLIADAU**

✓ **GWISG YSGOL**

✓ **TYWYDD POETH**

✓ **LLES**

... **A MWY**

GAIR GAN Y PRIFATHRO



Mr Dylan Minnice

Pleser yw cael eich cyfarch am y tro cyntaf fel Prifathro newydd “*Hen ysgol hogia (a genod) Llŷn*”.

Hoffwn ddiolch i chi am y dymuniadau da rwyf wedi eu derbyn gan gymaint ohonoch ac edrychaf ymlaen at gael arwain yr ysgol, wrth sicrhau ein bod yn parhau i gynnig addysg o’r radd flaenaf i holl ddisgyblion Llŷn.

Cofiwch, os oes gennych unrhyw fater i’w drafod ynglŷn â’r ysgol yna cysylltwch â ni.

Diolch yn fawr.

TYMOR YR HAF

DYDDIADAU PWYSIG

Dyma rai dyddiadau pwysig ar gyfer eich dyddiaduron:

4 Mai	Diwrnod Calan Mai - Dim Ysgol
5 - 12 Mai	Profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol (Bl. 7,8 a 9)
8 Mai - 17 Mehefin.....	Arholiadau TGAU
23 - 31 Mai	Gwyliau Hanner Tymor
2 Mehefin	Mabolgampau’r Ysgol
22 - 26 Mehefin.....	Arholiadau haf Blwyddyn 7, 8, 9, 10
29 Mehefin – 3 Gorffennaf	Profiad Gwaith Blwyddyn 10
17 Gorffennaf	Diwrnod olaf y tymor i ddisgyblion
20 Awst.....	Canlyniadau TGAU
1 Medi	Tymor yr Hydref - Athrawon yn unig
2 Medi	Disgyblion yn dychwelyd i’r Ysgol

Gwybodaeth bellach am yr arholiadau ar dudalen 2 a 3 y bwletin yma.

Mae amserlen gwyliau ysgol y Cyngor ar gael drwy fynd i’r wefan:

<https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Trigolion/Ysgolion-a-dysgu/Dyddiadau-tymor--gwyliau.aspx>

ADRODDIADAU INTERIM – BLYNYDDOEDD 7 – 10

Yr ydych wedi derbyn copi o Adroddiad Interim eich mab / merch cyn y Pasg. Prif nod yr Adroddiad yw monitro ymdrech a chynnydd y disgyblion. Braf sylwi fod mwyafrif llethol y disgyblion yn gweithio’n gyson galed ac yn gydwytbodol hyd eithaf eu gallu ym mhob pwnc. Mae ambell i ddisgybl mewn ambell i bwnc wedi cael gradd C sef boddhaol neu radd D sef Anfoddhaol am Ymdrech. Bydd staff yn monitro tangyflawni o’r fath. Byddwch chwithau fel rhieni yn awyddus rwy’n siŵr i’n cefnogi i wella ar agwedd ac ymdrech anfoddhaol o hyn hyd yr haf. Cysylltwch â’r ysgol os hoffech drafod adroddiad eich mab / merch.

PRESENOLDEB

Mae presenoldeb da yn parhau i fod yn flaenoriaeth yn yr Ysgol. Mae colli ysgol yn effeithio ar addysg eich plentyn. Mae presenoldeb disgyblion yr ysgol parhau i fod yn dda (95% ar gyfartaledd hyd yn hyn eleni). **Diolch yn fawr i chi am eich cefnogaeth.**

Credwn fod presenoldeb rhagorol yn allweddol i lwyddiant academiaidd a chymdeithasol pob disgybl. Gwobrwyir dosbarthiadau ac unigolion am bresenoldeb rhagorol.

Mae presenoldeb o 95% yn swnio’n dda, ond dros 5 mlynedd o ysgol byddai hyn yn golygu fod disgybl yn colli bron i 250 o wersi!

Presenoldeb	100%	99%	98%	97%	96%	95%	94%	93%	92%	91%	90%	89%	88%	87%	86%	85%
Nifer o wersi wedi eu methu dros 5	0	48	95	143	190	238	285	332	380	428	475	523	570	618	665	713

Cydymdeimlir â disgyblion sydd yn sâl ond mae ambell ddisgybl yn colli ysgol oherwydd anhwylderau bychan iawn neu â mymryn o boen bol neu gur pen.

I fanteisio’n llawn ar yr addysg a gynigir yn yr ysgol rhaid wrth lefel uchel o bresenoldeb.

“Mae pob disgybl yn cyfri — Mae pob diwrnod yn cyfri”

MYND AR WYLIAU YN YSTOD TYMOR YSGOL (DYFYNIAD O WEFAN CYNGOR GWYNEDD)

Mae mynd â phlant ar wyliau yn ystod tymor ysgol yn gallu arwain at amryw o broblemau megis:

- addysg eich plentyn yn dioddef
- colli gwersi a gweithgareddau allgyrsiol
- colli cysondeb gwaith

O'r herwydd rydym yn gofyn i chi osgoi mynd ar wyliau yn ystod tymor ysgol os yn bosibl.

ARHOLIADAU

BLWYDDYN 11

Mae’n gyfnod arbennig o brysur i bob disgybl ym Mlwyddyn 11. Mae’n bwysig fod y **disgyblion** yn yr ysgol **bob dydd**. Mae angen gorffen y maes llafur ymhob pwnc, cwblhau gwaith cwrs, ymarfer hen gwestiynau ac adolygu yn drwyadl.

Ni fydd cyfnod adolygu gartref ddyddiau cyn cychwyn yr arholiadau eleni yn ôl cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

Mae disgwyl i ddisgyblion Blwyddyn 11 ddod i’r ysgol bob dydd hyd gychwyn yr arholiadau fore Gwener, 8 Mai, **ac i ddod i’r ysgol wedi hynny bob dydd i sefyll arholiadau neu i adolygu yn y gwersi**. Bydd athrawon yn adolygu gyda’r disgyblion. Mae’n bwysig fod disgyblion yn dod â gwaith adolygu gyda hwy i’r ysgol i gael y budd gorau o’r cyfnodau adolygu dwys.

Anfonir llythyr i'r cartref yn nes at yr arholiadau i egluro’r drefn hon yn iawn.

Mae pwysau gwaith ar ein myfyrwyr hŷn ond mae’r staff yn yr ysgol yn barod iawn i’w helpu a’u harwain i gyrraedd eu llawn potensial yn yr arholiadau.

Os yw eich mab / merch yn cael trafferth gyda’u gwaith neu’n bryderus am agwedd o’u gwaith ysgol cysylltwch â’r ysgol i nodi hynny os gwelwch yn dda (i sylw’r Pennaeth neu’r Dirprwy - Mr. Geraint Hughes).

Dymuniadau gorau i bob disgybl ym Mlwyddyn 11 ar gychwyn cyfnod allweddol yn eu hanes.

Rhaid paratoi yn drwyadl a gweithio’n gyson galed i lwyddo yn yr Haf. Heb roi amser digonol i baratoi ni ddaw llwyddiant - **“Fail to prepare, prepare to fail”**. Dyna’r gri arferol o Fotwnnog yr adeg hon o’r flwyddyn - ac mae mor wir.

PROM BLWYDDYN 11

Bydd cyfle i ddisgyblion blwyddyn 11 ymlacio ar ôl yr arholiadau yn y Prom mae'r Ysgol yn ei drefnu ar eu cyfer yn Nant Gwrtheyrn. Mae hwn yn brynhawn hwyliog lle mae cyfle i flwyddyn 11 fwynhau pryd o fwyd, disgo a chymdeithasu mewn lleoliad hyfryd.

Mae'n gyfle i'r Ysgol wobrwyo ymddygiad ac ymdrech blwyddyn 11—ond cedwir yr hawl i wrthod disgyblion nad ydynt yn ymdrechu neu sy'n ymddwyn yn amhriodol yn y cyfnod nesaf rhag cael mynd.

ARHOLIADAU ALLANOL - BLWYDDYN 10

Cynhelir tri arholiad allanol Gwyddoniaeth TGAU yn ystod mis Mehefin - **Dyma'r unig gyfle fydd gan y disgyblion i sefyll yr arholiadau hyn.** Byddant yn ennill cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth ar ddiwedd Blwyddyn 10 cyn mynd ymlaen i astudio TGAU Gwyddoniaeth Ychwanegol ym mlwyddyn 11. Mae yna hefyd arholiadau allanol mewn unedau rhai pynciau eraill. **Mae'n hanfodol fod y disgyblion yn bresennol ar gyfer eu harholiadau ar y dyddiadau canlynol:-**

Dydd Llun, 11 Mai	Ast. Crefyddol
Dydd Llun, 18 Mai	Saesneg Llên—Uned 1 (Of Mice & Men a Barddoniaeth)
Dydd Mercher, 20 Mai	Busnes Gymhwysol—Uned 2
Dydd Mawrth, 9 Mehefin.....	Bywydeg
Dydd Gwener, 12 Mehefin.....	Cemeg
Dydd Llun, 15 Mehefin.....	Ffiseg
Dydd Mawrth, 16 Mehefin.....	Hanes—Uned 3 (UDA)

AMSERLENNI ARHOLIADAU ALLANOL - BLYNYDDOEDD 10 AC 11

Mae pob disgybl ym mlynnyddoedd 10 ac 11 wedi derbyn amserlen bersonol yn nodi eu harholiadau.

Mae amserlenni llawn ar gael ar wefan yr Ysgol— <http://ysgolbotwnnog.org/disgyblion.html>

PROFION DARLLEN A RHIFEDD CENEDLAETHOL - BLYNYDDOEDD 7, 8 A 9

Dyma'r drydedd flwyddyn o brofion darllen a rhifedd ar gyfer disgyblion hyd at Flwyddyn 9.

Bydd y rhain yn cael eu cynnal mewn gwersi Cymraeg, Saesneg a Mathemateg yn y cyfnod 5 Mai—12 Mai

Mae gwybodaeth pellach am y profion hyn ar gael ar wefan y Llywodraeth Cymru

<http://learning.wales.gov.uk/docs/learningwales/publications/140420-information-for-parents-carers-2-9-cy.pdf>

ARHOLIADAU MEWNOL - BLYNYDDOEDD 7 - 10

Cynhelir arholiadau mewnol yr ysgol ar ddiwedd y tymor yma—22^{ain}—26^{ain} Mehefin.

Mae sicrhau canlyniadau da yn yr arholiadau hyn yn bwysig. Bydd adrannau yn defnyddio'r canlyniadau hyn ynghyd â marciau'r flwyddyn i benderfynu ym mha setiau y mae disgyblion ar gyfer y tymor nesaf.

Dylai fod eich mab/merch yn dechrau adolygu ar gyfer yr arholiadau hyn yn ystod yr hanner tymor yma.

HELPU EICH MAB/MERCH I ADOLYGU

Gallwch gynorthwyo eich mab/merch i adolygu drwy:

- gynllunio amser penodol bob nos ar gyfer adolygu—mae sesiynau o tuag awr ar y tro gydag egwyl fach rhyngddynt yn aml yn gweithio'n dda;
- eu helpu i gynllunio amserlen adolygu ar gyfer pob pwnc;
- sicrhau lleoliad tawel iddynt gael gweithio;
- eu profi ar y gwaith.

Gellir cael gwybodaeth bellach am sut i gynorthwyo eich plant i adolygu ar wefannau fel BBC Bitesize.

GWISG YSGOL

Wrth brynu dillad ysgol ar gyfer y tymor newydd ym mis Medi cofiwch y rheolau am wisg ysgol os gwelwch yn dda:

Gwisg Ysgol

- Trainers neu esgid **ddu yn unig**—dim lliwiau eraill ar y trainers.
- **Dim jîns, cords, leggings, jeggings, trowsus combat na throwsus cargo.**
- **Sgert ysgol blaen ddu rhesymol o ran hyd gyda theits duon.**
- Siwmpwr ddu gwddw crwn gyda bathodyn yr ysgol arni - ar werth yn yr ysgol.
- Crys polo gwyn gyda bathodyn yr ysgol arni - ar werth yn yr ysgol.

Gemwaith

- Caniateir **un pâr o stÿds bach yn y clustiau yn unig** .
- **Ni chaniateir gemwaith yn y trwyn na'r wyneb.**
- Un fodrwy ar fys.
- **Dim mwclis na breichledau.**

TYWYDD POETH - DIOGELU RHAG LLOSG HAUL

Yn y blynyddoedd diwethaf mae achosion o gancr y croen wedi cynyddu. **Dylai disgyblion ofalu eu bod yn rhoi eli haul factor 15+** pan fo tywydd yn boeth yn enwedig rhwng 11 y bore a 3 y prynhawn, fel nad ydynt yn llosgi.

Mae'n bwysig felly, fod disgyblion yn rhoi eli haul pan fyddant yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau awyr agored—gwersi addysg gorfforol, diwrnod Mabolgampau ac yn y blaen. Os ydynt yn anghofio eli haul eu hunain dylent ofyn i'w hathrawon.

CEFNOGAETH LLES I'CH MAB / MERCH

Yma yn Ysgol Botwnnog 'rydym yn ymdrechu i roi'r gofal gorau i bob disgybl ac os yw eich mab / merch yn cael amser anodd neu yn cael trafferthion gyda'u gwaith neu problemau lles yna mae gennym nifer o arbenigwyr a all eu helpu.

Mr. Dafydd Eurgain Jones a Mr Dafydd Owen Cymorthyddion / Mentoriaid

Mrs. Ann James Lles y merched ac Anogwr Dysgu

Mrs. Carol Pilling Anogwr Dysgu / Mentor

Mrs. Iola Jones Nyrs Ysgol (Dydd Llun)

Mrs. Vida Kennedy Cwnselydd (Dydd Gwener)

Os hoffech i ni gyfeirio eich mab / merch at un o'r uchod yna cysylltwch â Mr. Geraint Hughes, y Dirprwy Brifathro.



Pencampwyr Cystadleuaeth 'Radio 2 -500 words' Bl 7 ac 8
Mae blynyddoedd 7 ac 8 wedi bod yn ysgrifennu straeon byrion yn eu gwersi Saesneg er mwyn cystadlu yng nghystadleuaeth '500 words' Radio 2
Yn y llun mae Ioan Parry (Bl 8) - mae stori Ioan wedi cyrraedd rownd gynderfynol y gystadleuaeth genedlaethol ac Elin Owen enillydd cystadleuaeth blwyddyn 7 yr ysgol. Llongyfarchiadau i bawb gymrodd ran - bydd cyfle i ddarllen y storïau ar wefan yr Ysgol cyn bo hir.



Clwb Interact yr Ysgol

Y tymor diwethaf sefydlwyd Clwb Interact yn yr Ysgol. Clwb yw hwn sy'n cael ei hyrwyddo gan y Clwb Rotari sy'n annog pobl ifanc i wneud gwaith gwirfoddol a dyngarol yn y gymdeithas ac yn rhyngwladol. Yn y llun mae David Watson ac Alice Horwood o Glwb Rotari Pwllheli a swyddogion Clwb Interact yr Ysgol - Helen Hirst, Lois Parri a Pandora Lapington.